

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru  
[Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU](http://Penderfyniadau.Cynllunio.ac.Amgylchedd.Cymru)

## APÊL GORFODI ADEILAD RHESTREDIG / APÊL GORFODI ARDAL GADWRAETH

Os bydd arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0300 0604400. **I'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn gywir, cyfeiriwch at ein canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru.**

**RHYBUDD:** Rhaid i'ch apêl gyrraedd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru cyn dyddiad gweithredol hysbysiad gorfodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

### PRINTIWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU

#### A. Apelydd

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	

#### B. Asiant (os oes un) ar gyfer yr apêl

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Cyfeirnod	

#### C. Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)

Enw'r ACLI	
Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad gorfodi	
Dyddiad gweithredol yr hysbysiad gorfodi	
Cyfeirnod ar yr hysbysiad gorfodi	

## D. Cyfeiriad Safle'r Apêl

Adeilad / Tir yr effeithir arno (rhowch y cyfeiriad llawn)			
Cod Post			
		<b>OES *</b>	<b>NAC OES</b>
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle, neu gerllaw'r safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? <i>*Os oes, esboniwch</i>			
		<b>OES / YD Y</b>	<b>NAC OES/ NAC YDY</b>
a	Os cytunir ar y weithdrefn ysgrifenedig, a oes modd gweld y rhan berthnasol o safle'r apêl o ffordd, llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau neu o dir cyhoeddus arall?		
b	A yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd ar y safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol eraill? * <i>Os mai 'YDY' yw'r ateb, esboniwch isod</i>		
<p><b>NODER: Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle <u>ar ei ben ei hun</u> heb fod yr un o'r ddau barti yno oni bai nad oes modd gweld y rhan berthnasol o'r safle o ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu mae'n hanfodol i'r Arolygydd fynd ar y safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol eraill.</b></p>			
		<b>Perchennog</b>	<b>Tenant</b>
Beth yw eich buddiant chi/buddiant yr apelydd yn y tir?			<b>Morgeisai</b>
		<b>OEDDWN / OEDD</b>	<b>NAC OEDDWN / NAC OEDD</b>
Os nad yw'r un o'r rhain yn berthnasol, a oeddech chi/a oedd yr apelydd yn meddiannu'r tir o dan drwydded ysgrifenedig neu lafar <b>AR</b> y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad gorfodi <b>AC</b> ar ddyddiad gwneud yr apêl?			
Os "NA", beth yw eich cysylltiad chi/cysylltiad yr apelydd â'r tir?			

## E. Gwybodaeth Ategol

1.	Os yw'r adeilad wedi'i restru, nodwch radd yr adeilad	Gradd I	Gradd II*	Gradd II
2.	Ar ba ddyddiad y cafodd yr adeilad ei restru gyntaf?	<b>Dyddiad</b>		
3.	A oes grant wedi'i roi o dan adrannau 3A neu 4 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953?	<b>OES</b>		<b>NAC OES</b>
4.	A yw'r apêl yn ymwneud â chais â Hysbysiad Gorfodi Ardal Gadwraeth?			

## F. Seiliau a Ffeithiau

Ticiwch pa rai o'r seiliau apêl sy'n berthnasol i'ch achos chi, a rhowch ffeithiau i gefnogi pob sail a ddewiswyd, gan roi eich datganiad achos llawn. Cyfeiriwch at ein canllawiau i gael help. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.

### a **Nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.**

Hynny yw, er bod yr adeilad wedi'i restru, nid yw'n eithriadol ac yn deilwng o gadwraeth. Mae'r sail hon, i bob pwrpas, yn gwahodd Gweinidogion Cymru i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr statudol.

Yn achos *hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth*, mae sail (a) yn darllen "**nad yw'n angenrheidiol cadw'r adeilad er budd gwarchod neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth y mae wedi'i leoli ynddi**"; (gweler SI 1990 Rhif 1519 rheoliad 12 ac atodlen 3).



### b **Nad yw'r materion yr honnir eu bod wedi tramgwyddo adran 9(1) neu (2) wedi digwydd**

Nid yw'r hyn a honnir yn yr hysbysiad wedi digwydd fel mater o ffaith.

## F. Seiliau a Ffeithiau (parhad)

		<input checked="" type="checkbox"/>
<b>c</b>	<b>Nad yw'r materion hynny (os digwyddont) yn gyfystyr â thramgwydd o'r fath</b>	
<p>Mae'r sail hon yn dadlau nad oes angen caniatâd adeilad rhestredig – er enghraifft, am nad yw'r gwaith yn effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig, neu am fod y gwaith yn ymwneud ag adeilad nad yw'n rhan o adeilad rhestredig.</p>		
		<input checked="" type="checkbox"/>
<b>d</b>	<b>Bod y gwaith i'r adeilad yn angenrheidiol ar fyrder er budd diogelwch neu iechyd, neu er gwarchod yr adeilad, nad oedd yn ymarferol i sicrhau diogelwch neu iechyd, neu, yn ôl fel y digwydd, gwarchod yr adeilad drwy waith atgyweirio neu waith sy'n rhoi cynhaliaeth neu loches dros dro, a bod y gwaith a gyflawnwyd yn gyfyngedig i'r mesurau lleiaf yr oedd eu hangen ar unwaith.</b>	
<p>Rhaid bodloni pob un o'r 3 phrawf. Gellid dadlau yma, er enghraifft, fod y gwaith dan sylw yn angenrheidiol ar fyrder am fod rhannau o'r adeilad yn anniogel.</p>		
<b>F. Seiliau a Ffeithiau (parhad)</b>		
		<input checked="" type="checkbox"/>

<b>e</b>	<b>Y dylai caniatâd adeilad rhestredig gael ei roi ar gyfer y gwaith, neu y dylai unrhyw amod perthnasol o'r cyfryw ganiatâd sydd wedi'i roi gael ei gyflawni, neu ei amnewid ag amodau gwahanol.</b>	
Mae'r sail hon yn cwmpasu unrhyw ddadleuon ar rinweddau'r achos.		
<input checked="" type="checkbox"/>		
<b>f</b>	<b>Na chafodd copïau o'r hysbysiad eu cyflwyno fel y mynnir gan adran 38(4).</b>	
Mae hwn yr un fath â sail (e) mewn apêl gorfodi adran 174 – gweler y daflen.		
<input checked="" type="checkbox"/>		
<b>g</b>	<p><b>NODER: Os dewiswch y sail hon, ni allwch ddewis (i), (j) neu (k) hefyd</b></p> <p><b>Ac eithrio mewn perthynas â gofyniad o'r fath a grybwyllir yn adran 38(2)(b) neu (c), bod gofynion yr hysbysiad uwchlaw hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer adfer yr adeilad i'w gyflwr cyn i'r gwaith gael ei gyflawni.</b></p>	
Bydd apêl ar y sail hon yn honni bod y camau y dywedir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol yn ormodol.		
<b>F. Seiliau a Ffeithiau (parhad)</b>		
<input checked="" type="checkbox"/>		

<b>h</b>	<b>Bod y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fel y cyfnod ar gyfer gorfod cymryd unrhyw gamau a fynnir gan yr hysbysiad yn llai na hynny y dylid ei ganiatáu'n rhesymol.</b>	
<p>Mae hyn yn cyfeirio at gyfnod cydymffurfio a ddatgenir yn yr hysbysiad. Os ydych hyn honni ei fod yn rhy fyr, nodwch yr hyn sy'n gyfnod cydymffurfio rhesymol yn eich barn chi.</p>		
<input checked="" type="checkbox"/>		
<b>i</b>	<p><b>NODER: Os dewiswch y sail hon, ni allwch ddewis (g), (j) neu (k) hefyd</b></p> <p><b>Na fyddai'r camau a fynnir gan yr hysbysiad at y diben o adfer cymeriad yr adeilad i'w gyflwr blaenorol yn cyflawni'r diben hwnnw.</b></p>	
<p>Byddai apêl ar y sail hon yn honni na fyddai'r camau a fynnir gan yr hysbysiad yn adfer cymeriad yr adeilad i'w gyflwr blaenorol. Mae hyn yn wahanol i apêl ar sail (g) a fyddai'n honni bod y camau a fynnir yn ormodol.</p>		
<p><b>NODER:</b> Nid yw'r sail apêl hon ar gael ar gyfer apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi ardal gadwraeth sy'n honni dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.</p>		
<b>F. Seiliau a Ffeithiau (parhad)</b>		
<input checked="" type="checkbox"/>		
<b>j</b>	<b>NODER: Os dewiswch y sail hon, ni allwch ddewis (g), (i) neu (k) hefyd</b>	

**Bod camau a fynnir yn rhinwedd adran 38(2) (b) uwchlaw hynny sy'n angenrheidiol i liniaru effaith y gwaith a wnaed i'r adeilad.**

Lle nad oedd yn ofynnol adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol, mae'r gwaith a fynnir yn mynd uwchlaw hynny sy'n angenrheidiol i liniaru effaith y gwaith a wnaed. Mae Adran 38(2)(b) yn galluogi awdurdod sydd o'r farn na fyddai adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol yn ymarferol yn rhesymol neu y byddai'n annymunol, i bennu camau "ar gyfer cyflawni'r cyfryw waith pellach a bennir yn yr hysbysiad yr ystyriant yn angenrheidiol i liniaru effaith y gwaith a gyflawnwyd heb ganiatâd adeilad rhestredig".

*Nodwch sut ddylid amrywio'r gofynion.*



**NODER: Os dewiswch y sail hon, ni allwch ddewis (g), (i) neu (j) hefyd**

**k** **Bod y camau a fynnir yn rhinwedd adran 38(2) (c) uwchlaw hynny sy'n angenrheidiol i ddod â'r adeilad i'r cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai cydymffurfio wedi bod â thelerau ac amodau'r caniatâd adeilad rhestredig.**

Fel uchod, ond yn ymwneud ag achosion lle ceir tor amod ynghlwm wrth roi caniatâd adeilad rhestredig. Mae Adran 38(2)(c) yn galluogi awdurdod i bennu camau "i ddod â'r adeilad i'r cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai cydymffurfio wedi bod â thelerau ac amodau unrhyw ganiatâd adeilad rhestredig a roddwyd ar gyfer y gwaith".

**G. Gweithdrefn Ddewisol (Dewiswch un weithdrefn yn unig)**

Gellir ystyried apeliadau y delir â nhw o dan Ran 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau (Cymru) 2017 ar sail gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad neu achosion cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017 rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad ynglŷn â'r weithdrefn. Felly, byddwn yn ystyried eich barn wrth bennu'r weithdrefn. Os rhoddir rhesymau annigonol dros wrandawriad neu ymchwiliad, gallwn fabwysiadu'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

***Ticiwch un blwch yn unig***

Rwyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol.	
Nid wyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol am y rhesymau a roddir yn y blwch isod. Rwy'n derbyn mai mater i ddisgresiwn yr Arolygiaeth ydyw o ran p'un ai gwrandawriad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r ddau a gynhelir.	

**Os ydych yn teimlo bod angen gwrandawriad neu ymchwiliad, rhowch eich rhesymau llawn isod, gan gynnwys nifer debygol y diwrnodau y teimlwch y bydd y digwyddiad yn para, a faint o dystion y bwriadwch eu galw.**

**H. Costau (gweler y canllawiau am ragor o wybodaeth)**


	<b>YDW</b>	<b>NAC YDW</b>
<b>A ydych chi'n bwriadu cyflwyno cais am gostau gyda'r apêl hon?</b> <i>Os ydw, rhowch eich achos isod</i>		

**Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen**



## H. Apeliadau Eraill

	YDW	NAC YDW
A ydych chi wedi anfon apeliadau eraill atom ar gyfer y safle hwn neu safleoedd gerllaw, er enghraifft, yn erbyn gwrthodiad caniatâd cynllunio neu dystysgrif datblygiad cyfreithlon, nad ydynt wedi'u penderfynu eto?		
Os <b>YDW</b> , rhowch fanylion a'n rhifau cyfeirnod ni.		



### Manylion Personol (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

#### 1. Manylion personol yr apelydd

Cyfeiriad		
Cod Post		
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd		
Ffacs		
E-bost		

	E-bost	Post
<b>Mae'n well gen i gyswllt drwy'r</b>		
	Saesneg	Cymraeg
<b>Dewis Iaith</b>		

#### 2. Manylion Personol yr Asiant (os oes rhai)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
Ffacs	
E-bost	

	E-bost	Post
<b>Mae'n well gen i gyswllt drwy'r</b>		
	Saesneg	Cymraeg
<b>Dewis Iaith</b>		

## Gwirio, Llofnodi a Dyddio

	YDW	NAC YDW
Rwyf wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen		
Rwyf wedi atodi copi o'r hysbysiad gorfodi a'r cynllun at y ffurflen hon		
Rwyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon a'r dogfennau at yr ACLI		
Rwy'n deall y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddais at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a bydd manylion yn cynnwys fy enw, y disgrifiad o'r safle a sail fy apêl yn ymddangos ar-lein. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a ddarparaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.		

Enw (mewn priflythrennau)

Llofnod

Dyddiad

Ar ran (os yw'n berthnasol)

## Nawr Anfonwch

**1 COPI o'r ffurflen apêl hon gyda dogfennau ategol atom ni yn:**

### Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

E-bost: [PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru](mailto:PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru)  
[pedw.casework@gov.wales](mailto:pedw.casework@gov.wales)

Llinell Gymorth: 0300 0604400

**Cadwch gopi i'ch cofnodion chi**

**1 COPI o'r ffurflen apêl hon gyda dogfennau ategol at yr ACLI i'r:**

- cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad gorfodi ohono; neu
- y cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd gan yr ACLI.

**Pan dderbyniwn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a yw eich apêl yn ddilys, pwy sy'n delio â hi a beth sy'n digwydd nesaf.**